


papur



priordy



**Dim ond Un all estyn llaw
A hoelion trwy Ei ddwylaw**

Ken Griffiths

*Dewiswyd gan Iwan Griffiths, un o rieni'r Ysgol Sul
Gweler y rheswm am ei ddewis y tu mewn*

**Rhifyn 356
PAPUR MEHEFIN 2022**

Gair gan ein Gweinidog

Wilf y Bugail

BYDD ffilm ddogfen bwerus am fywyd bugail o Geredigion yn cael ei dangos yng Ngŵyl Ffilmiau Tribeca yn Efrog Newydd fis nesaf.

Mae'r ffilm *Heart Valley* yn dilyn diwrnod ym mywyd Wilf Davies, 73 oed, sy'n cadw 70 o ddefaid ar ei fferm yng Nghellan ger Llanbedr Pont Steffan, ac wedi curo 7,000 o ffilmiau eraill i ennill ei lle yn yr ŵyl ffilm enwog.

Dyn ei filltir sgwâr yw Wilf, a phrin y mae wedi gadael Dyffryn Teifi yn ystod ei fywyd. Mae'n byw bywyd digon cyntefig, ac yn bwyta'r un pryd bwyd bob nos o winwns, ffa pob, pysgod ac wy wedi'i ffrio.



Yn ystod y ffilm, mae'n trafod effaith mewnfudo ar ei gymuned, a'r cynlluniau i blannu coed ar ffermydd yn yr ardal. Mae'n sôn hefyd am ei frwydr i ddod nôl i ffermio ar ôl cael strôc.

Wedi ei ffilmio a'i golygu gan y cyfarwyddwr Christian Cargill, mae *Heart Valley* yn darlunio bywyd syml Wilf a'i ymroddiad llwyr i'w braidd.

Portreadir Duw yn y Beibl fel bugail, a dywedodd Iesu am ei hun, *Myfi yw'r Bugail da*. Arweiniodd ei ymroddiad i'w braidd iddo roi ei fywyd drostynt.

Gwaith yr eglwys yw bugeilio.

Cofiwn orchymyn Iesu i Pedr (Ioan 21:17) i borthi'r defaid. Dyma ran o'n gwaith ni, bob un ohonom. Rydym i gyd yn fugeiliaid i'n

gilydd ac i fod yn borthiant ac yn gymorth, y naill i'r llall.

GWELWN ein bod yn cael ein cymell, gan ein Gwaredwr, i gynorthwyo diadelloedd lleol yn ogystal â defaid nad ydynt o'r gorlan hon. Dyma'r her mae'r Bugail yn ei gosod arnom wrth i ni ei ddilyn.



Gweddïwn

Arglwydd Iesu, y Bugail da ym mhob oes a gwlad, rwyf ti'n barod i roi dy fywyd dros dy ddefaid, drosom ni. Rydym yn adnabod dy lais, yn clywed dy eiriau.

Diolch dy fod, drwy'r blynyddoedd, wedi'n gwarchod a dy fod gyda ni wrth i ni gerdded trwy'r glyn tywyll.

Diolch am dy aberth drosom, dy ddefaid crwydrol.

Gad i ni sylweddoli maint a gwerth dy aberth a chysegru ein bywydau i dy ddilyn di ac i dystiolaethu am rym achubol dy gariad.

Yn enw Iesu

Amen



20

GAIR O DDIOLCH

20

Gair byr i ddiolch o waelod calon am drefnu diwrnod mor arbennig i ddathlu fy ugeinfed flwyddyn yn yr Ofalaeth. Diolch i bawb a ddaeth i'r oedfa, a hefyd am y cinio bendigedig a'r adloniant gwych. Roedd y trefniadau'n berffaith. Diolch hefyd am y rhodd ariannol eithriadol o hael - llawer mwy na'm haeddiant. Bydd y diwrnod yn aros yn y cof am byth.

Beti-Wyn

Mis Mehefin	Darlleniad
Wythnos 1 Pentecost	Actau 2: 1-21
Wythnos 2	Ioan 16: 12-15
Wythnos 3	Luc 8: 26-39
Wythnos 4	Luc 9: 51-62

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

GWYNETH EVANS
Hwlffordd

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

Galwad am Wirfoddolwyr i Agor Y Llyfr

Tybed a fyddai awydd gan ambell un ohonoch i ymuno â thîm Agor y Llyfr sy'n ymweld ag Ysgol y Dderwen unwaith y mis i gyflwyno stori o'r Beibl? Mae llawer iawn o hwyl i'w gael yng nghwmni'r plant, fel y gwelwch yn y lluniau yn y rhifyn hwn.

Does dim angen dysgu geiriau na symudiadau - dim ond cydgyflwyno gyda gweddill y tîm.

Cysylltwch â Beti-Wyn am fwy o fanylion.



PANED A SGWRS

Bore Mercher, 29 Mehefin 2022 – 10.30

Gwesty'r Llwyn Iorwg

Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr

(Bydd rhaid i bob un brynu ei goffi ei hunan)



DATHLU UGAIN



20



SUL O DDATHLU!

BU'N ddau ddegawd hynod o gyfoethog a dyrchafol yn hanes ein Gofalaeth a braf oedd cael dathlu hynny gyda'n gilydd ar Ddydd Sul, 22 Mai 2022.

A pha well ffordd o ddathlu rhywbeth nodedig na thrwy gynnal oedfa deulu?

Roedd awyrgylch byrlymus yn y Priorddy wrth i ni ddod ynghyd i ddiolch am ugain mlynedd o gydweithio a chydaddoli a mwynhau dan arweiniad ein Gweinidog, Beti-Wyn. Bu'n ugain mlynedd o fentro ac arloesi mewn sawl ffordd ac, fel y dywedwyd, mae'n bwysig parhau ar hyn y llwybr hwn, gan barchu'r gorffennol ac adeiladu arno.

Hyfryd oedd creu darlun o'r eglwys fel cwch, gyda rhwyf gan bob aelod a'r angen i bob un ohonom rwyfo gyda'n gilydd er mwyn symud ymlaen. Roedd y clip fidio ac emyn trawiadol Siôn Aled (*O Llanwa hwyliau d'Eglwys – Caneuon Ffydd 615*) yn cadarnhau hynny i'r dim. Ie, gwaith tîm yw eglwys ac mae gan bob un ohonom ddawn a rhaid wrth gyfle i'w defnyddio. Ond mae'n rhaid cael capten hefyd on'd oes? Ac mae'n dyled yn fawr i Beti-Wyn am fod mor effeithiol yn y swyddogaeth honno.

Roedd y weddi'n crynhoi'n diolchiadau'n effeithiol iawn, yn enwedig am y bendithion sydd wedi dod i ni drwy'r Eglwys a'r Ysgol Sul sy'n rhan mor annatod ohoni ac am yr holl gyfleoedd a gawsom drwy'r Efengyl. Roedd y weddi hefyd yn edrych ymlaen ac yn mynegi'n dyhead i groesawu Iesu o'r newydd i'n calonnau fel y cawn ein hysbrydoli a'n gwroli ar gyfer ein



20

cenhadaeth heddiw yn ein byd cyfoes. Wrth sôn am heddiw nid oedd sefyllfa Wcráin ymhell o'n meddyliau ychwaith a chynheuwyd kannwyll ac offrymwyd gweddi ar ddechrau'r oedfa dros bawb sy'n dioddef o ganlyniad i wrthdaro.



Rhoddwyd lle canolog i'r plant yn yr oedfa ac esboniodd ein Gweinidog yn ei ffordd ddihafal ei hun fel mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae yn adeiladu Eglwys Iesu. Cawsant daflenni pwrpasol i'w lliwio hefyd.

Bu Beti-Wyn mor ddewr â wynebu cwestiynau gan y cyflwynydd profiadol Sulwyn Thomas! A chawsom gipolwg nid yn unig ar y blynyddoedd a fu ond hefyd ar yr heriau sy'n ein hwynebu. Clywsom fel mae adeiladu eglwys a'i chryfhau yn greiddiol i weinidogaeth Beti-Wyn ac fel mae gwyrth technoleg yn gallu chwarae rhan mor bwysig yn y broses o gwrdd ag angen ysbrydol pob person y dyddiau hyn. Rhyfeddwn weithiau sut mae'n Gweinidog yn gallu cyflawni cymaint ond cariad mawr at ei gwaith sydd wrth wraidd hyn ac mae ymateb pobl iddo'n ei llanw â brwdfrydedd ac yn ei symbylu.

Mae'n diolch yn fawr i Ethan, Osian, Tomos a Gwenan (Y Priordy) am gyflwyno'u deialogau mor rhagorol, i Angharad (Bancyfelin) am y darlenniad a Rachael (Cana) am y weddi, ac i Sulwyn am dywys y sgwrs rhyngddo a Beti-Wyn. Adrian Evans oedd y cyhoeddwr, Meinir Lloyd, yr organydd a Heather Williams, y cyfeilydd. Y casglyddion oedd Iestyn, Nel, Cadi ac Ifan.

A pha well ffordd i gloi'r oedfa hon na thrwy ganu emyn arbennig John Gwilym Jones (Fe chwythodd yr awel ar Gymru drachefn - Caneuon Ffydd 627)) gyda'r cytgan yn crynhoi pwyslais mawr yr oedfa ar gydaddoli a chydweithio:

20

**Molwn di, molwn di'n un teulu ynghyd,
molwn di, molwn di, a'n cân dros y byd;
cydweithiwn, cydgerddwn, cydfolwn gan fyw
i roi iti'r cyfan, ein Harglwydd a'n Duw.**

Mae pob diwrnod dathlu da yn diweddu gyda gwledd – a dyna a gafwyd yng Nghlwb y Cwins, Caerfyrddin yn ddiweddarach, gyda phawb yn mwynhau carferi a phwddin blasus iawn.

Cyflwynwyd gweddi fer ar y dechrau gan Alun Charles. Diolch i Alison Parsons (Y Priordy), Marlene Jones (Cana) a Joanne Richards (Bancyfelin) am eu gwaith gweinyddol ar ran y capeli ac i Adrian Evans am fod yn ddolen gyswllt rhwng y capeli a'r Cwins. Paratiodd Cath a'r merched yn y Cwins bryd wrth fodd calon pob un ohonom. Calondid i'n Gweinidog, a phob un ohonom yn wir, oedd gweld cymaint o blant yn bresennol.

Paratowyd cacen hyfryd i ddathlu'r achlysur gan Llinos Jones wedi'i ddarlunio'n gelfydd gyda lluniau'r tri chapel. Fe'i torrwyd gan Beti-Wyn a diolch am gael ei flasus.

Cyflwynwyd rhodd i Beti-Wyn ar ran yr Ofalaeth gan Sulwyn, Cadeirydd Swyddogion yr Ofalaeth a weithredodd hefyd fel cyflwynydd drwy gydol y dathlu. Mynegodd Beti-Wyn ei diolch i bawb am eu caredigrwydd.

Un o binaclau'r prynhawn oedd y ddeuawd enwog Peter Hughes Griffiths a Sulwyn yn datgan Penillion y Dathlu o waith Peter. Mae Peter, wrth gwrs, yn feistr ar ei grefft a'r geiriau, yn ôl yr arfer yn llawn hwyl ac yn codi gwên. Y cyfeilydd oedd Meinir Lloyd – gyda chymorth Sulwyn ar yr iwcaili!!

DIWEDDGLO da i ddiwrnod da ac un yn sicr sy'n peri i ni fel Gofalaeth edrych ymlaen at y dyfodol yn hyderus gyda'n Gweinidog.



DATHLU 20



20



PENILLION I GYFARCH BETI-WYN
Alaw – ‘Y Mochyn Du’

20

Cytgan:

**O mor llon yr ydym ni,
O mor llon yr ydym ni,
Yn y cinio diolchgarwch
O mor llon yr ydym ni.**

**Dewch i wrando hyn o eirie
Ry ni’n dathlu ugen mlyne
O wasanaeth mor ardderchog
Beti-Wyn ein hoff weinidog. (Cytgan)**

**Dod o’r Barri i Gaerfyrddin
A’i brwdfrydedd anghyffredin,
Dod i fod yn adeiladol -
A chyn dyddiau’r ffôn symudol! (Cytgan)**

**Oh! Ma’r ‘mobile phone’ mor handi
Trwy y dydd - ffrind gore Beti,
Os digwydd iddi golli honno
Bydd ei byd hi yn ‘colapso’. (Cytgan)**

**Ysgol Sul i’r rhai sy’n ffyddlon,
A chwrdd plant bob mis yn gyson,
A chyfeiliant da i’r canu
Gyda seiniau Band Priordy. (Cytgan)**

**Er i ninne fyw mewn gofid
Trwy holl gyfnod cas y Cofid,
Trefnodd hithau ddulliau newydd
O addoli gyda’n gilydd. (Cytgan)**

**Magu dwst yn awr ma’r llyfre -
Ar y sgrîn ma’r holl emyne,**

Llun a gair a chymorth fidio
Ym mhob pregeth i'n goleuo. (Cytgan)

Mynd â ni i ben Bryn Myrddin,
Cario'r groes trwy Bancyfelin,
Mynd ar dripie ar draws Cymru
Y tair eglwys gyda'i gily'. (Cytgan)

Am 'switsh off' mae'n carafanio,
Eisteddfota mae yn honno,
Cadw'n ffit fel ma'r menywod,
Mynd â Llew am dro bob diwrnod! (Cytgan)

Fe'i gorseddwyd hi yn Llywydd
Ar ein Hundeb ni a'n crefydd,
Mae'n arwyddfardd gorseddogion
Gyda'r Gwyrdd a'r Glas a'r Gwynion. (Cytgan)

I chi Beti-Wyn diolchwn
Am wasanaeth fe'ch clodforwn,
Ugen mlynedd – braf cael canmol,
A phob bendith i'r dyfodol. (Cytgan)

Peter Hughes Griffiths



Blodau Haul Wcráin

Mae'r blodau haul a wnaethpwyd ar ein cyfer gyda'r elw'n mynd at Apêl Wcráin wedi'u gwerthu i gyd bellach. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth. Casglwyd £250 drwy'r ymgyrch hon. Diolch hefyd i'n Trysorydd, Adrian Evans, am gadw'r cyfrifon.



Apêl Mehefin a Gorffennaf



PLANT DEWI

*Lle mae Teuluoedd yn Bwysig
Where Families Matter*

Bwndel Babi

Mae Plant Dewi yn brosiect sydd yn cefnogi
Teuluoedd ar draws Esgobaeth Tyddewi.
Mae Bwndel Babi yn cynnig adnoddau ac offer
hanfodol i groesawu babi newydd i'r cartref

Mae croeso i chi gefnogi'r Apêl hon dros Suliau
Mehefin a Gorffennaf drwy gyfrannu'r canlynol
(yn unig):

Sanau (maint baban newyddanedig)

**Dilledyn Babygro (maint baban
newyddanedig)**

Cewynnau (maint baban newyddanedig)

Bibiau

Diolch ymlaen llaw am bob cefnogaeth

TAITH GERDDED I BAWB

Dydd Sadwrn 16 Gorffennaf

LLANSTEFFAN

Cwrdd am 11yb yn y maes parcio
cyntaf

Dewch â phecyn bwyd a digon o ddiod
gyda chi ar y daith

Welwn ni chi yno!

CWRDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR Y PRIORDY

Nos Fercher 13 Gorffennaf 2022 am 7
yn y capel

Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid a'r
ymddiriedolwyr eu trafod, yna rhwch wybod i'r Ysgrifennydd
Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda

Beth am droi at
Wefan yr Undeb?
www.annibynwyr.org



M



Pa mor dda ydych chi'n 'nabod eich emynau? Mae ail linell deg emyn isod. Tybed beth yw'r llinell gyntaf? Mae'n Fis Mehefin a chan hynny mae pob llinell gyntaf (am yr ail fis yn olynol!!) yn dechrau gyda'r llythyren M



Rhowch gynnig arni! Pob lwc!!

1	presennol ym mhob man	M
2	i foli lôr y nef	M
3	holl genhedloedd daear las	M
4	wrth feddwl am dy waith	M
5	am bob crefft ac am bob dawn	M
6	Brenin mawr y nef	M
7	'does dim y tu hwnt iddo fe!	M
8	ei lygad sy'n gwylio y wennol a'r brain	M
9	ar gyfer f'eisiau i gyd	M
10	drwy'r anialwch mawr ymlaen	M

Atebion ar Dudalen 29

MENTRO MEWN FFYDD

Cyflwyniad dramatig
ar fideo ac ar lwyfan

THEATR YR HALLIWELL

Campws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Nos Iau 7 Gorffennaf 7.30

Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin Tocyn: £5



Podlediadau'r Priordy

Ar gael wrth ddilyn un o'r dolennu hyn

Spotify:

<https://open.spotify.com/show/6NM0ieGztlimmraEMzw9xC>

Apple Podcasts:

<https://podcasts.apple.com/us/podcast/oedfaoedd-beti-wyn/id1612830856?uo=4>

Spreaker:

<https://www.spreaker.com/show/oedfa-gan-beti-wyn-1>

iHeartRadio:

<https://iheart.com/podcast/93688407>

Deezer:

<https://www.deezer.com/show/3472067>

CYFUNDEB ANNIBYNWYR GORLLEWIN CAERFYRDDIN

CWRDD CHWARTER - DYDD IAU, 9 MEDI 2022

Capel Ffynnon Bedr

Y Gynhadledd am 4 / Cyfarfod yr Hwyr am 7

Cwrdd Plant y Priordy- 8 Mai 2022

GOFIDIAU A GWEDDÏAU oedd thema'r gwasanaeth teuluol y mis yma. Ar ôl cynnau cannyll Wcraïn, rhywbeth sydd wedi dod yn ddefod wythnosol ers sawl wythnos bellach yn anffodus, arweiniodd Beca ni mewn gair o weddi. "*Bendithia bawb sy'n byw dros heddwch a lles eraill a boed i'w gwasanaeth ddwyn ffrwyth*" oedd ei neges amserol i ni.



Roedd llond lle o gasglwyr brwdfrydig yn yr oedfa i wneud y casgliad - diolch i Nel, Olwen, Gwydion, Greta (a Heti'r ddoli) am wneud eu gwaith yn dda. Yn gyfeiliant i'r casgliad, a phob emyn arall wrth gwrs, roedd Band y Priordy. Roedd hi'n hyfryd gweld aelodau newydd yn chwarae

gyda'r band yn y Cwrdd Plant - mae'r cyfle i gydchwaru yn un arbennig iawn ac mae'r cyfleoedd yma'n rhai gwerthfawr fydd yn meithrin talent y bobl ifanc sy'n ymuno â'r band- da iawn nhw wir!

Arweiniodd Olwen a Mac ni'n raenus iawn o'r pulpud wedyn cyn gwneud lle i'r band taro yn y sedd fawr. "*Cristion Bychan Ydwyf yn dilyn Iesu Grist*" oedd llef y band taro a'r holl faracas, clychau a thamborïns! Os oedd rhywrai'n cysgu cyn i'r band taro ddechrau, doedden nhw'n sicr ddim yn cysgu erbyn diwedd yr emyn!



Arhosodd y plantos yn y sedd fawr i wrando ar air bach gan Beti-Wyn. Roedd hi'n hyfryd gweld y sedd fawr yn llawn unwaith eto - golygfa

rydyn ni wedi gweld ei heisiau dros y ddwy flynedd diwethaf yn bendant.

Am beth ydych chi'n poeni amdano o ddydd i ddydd, gwedwch? Dyna oedd y cwestiwn mawr. Tybed sawl un sy'n rhannu gofidiau Beti-Wyn a oedd yn cynnwys poeni am golli'r larwm ar fore Sul a chodi'n hwyr, poeni am orfod jyglo gwaith oherwydd bod dweud "na" i bobl mor anodd, poeni am y gwaith tŷ yn mynd yn drech na hi, poeni am weld dwy linell ar y prawf covid-19 ac yn naturiol ddigon, poeni am y merched a'u lles nhw. Ffiw... am restr hirfaith o bethau i boeni amdanynt - tybed faint sy'n taro deuddeg gyda chi hefyd?

Cafwyd cyfle yn nesaf i groesawu consuriwr i'n plith ... o na, sori.... Beti-Wyn oedd yna'n gwneud swynion a thriciau hudolus. Gyda llond y lle o gynulleidfa, roedd hi'n dipyn o risg mynd amdani! Nid troi'r dŵr yn win oedd y dasg y tro hwn ond yn hytrach, droi cwpan yn llawn hylif ben i waered gan ddibynnu ar ddarn bach o gardfwrdd i gadw'r hylif i mewn ac arbed y bwrdd Cymun rhag boddi!



Braf yw dweud i'n gweinidog amldalentog lwyddo i gyflawni'r dasg! Yn ôl Beti-Wyn, roedd hyn yn dangos i ni y gallwn ofyn i Iesu am help drwy weddïo - nid i ddileu ein problemau ond i ddygymod â nhw a chael nerth i ymdopi a delio â nhw. Rhywbeth a all roi cysur i ni i gyd felly wrth wynebu gofidiau; boed yn fach neu'n fawr.

O'R IEUENGAF I'R HYNAF, dw i'n siŵr i bawb fwynhau'r oedfa a'r cyfle i gydaddoli gyda'n gilydd. A sôn am yr ieuengaf... dw i

ddim yn siŵr beth yw'r record am y person ieuengaf i fynychu oedfa yn y Priordy ond mae'n siŵr bod Llan Siôn yn dod yn agos iawn ati. Yn frawd i Cadi a Hedd, sef dau o blant yr ysgol Sul, mynychodd Llan bach yr oedfa ac yntau ond yn 16 diwrnod oed!! Pregethwr bach y dyfodol efallai, pwy a ŵyr?!

GWEDDI DROS WCRÁIN



Dduw'r holl bobloedd a'r holl genhedloedd,
a greodd bopeth byw,
dangos inni ffordd tangnefedd.
Codwn bobloedd Wcráin a Rwsia atat,
pob plentyn ac oedolyn.
Dyhëwn am yr adeg
pryd y caiff arfau rhyfel eu troi yn sychau aradr,
pryd na fydd cenedl yn codi cleddyf yn erbyn cenedl.
Codwn ein llais atat am heddwch;
diogela'r rhai sy'n haeddu byw mewn diogelwch.
Cysura'r rhai sy mewn ofn am eu bywyd a bywyd eu ceraint.
Bydd gyda'r rhai sy'n galaru.
Newidia galonnau'r rhai sy'n mynnu dilyn ffordd trais
a llanwa arweinwyr gyda'r doethineb sy'n arwain at heddwch.
Cynnau ynom eto gariad am gymydog,
ac angerdd dros gyfiawnder
a chydabyddiaeth newydd fod gennym i gyd ran mewn
heddwch.
Greawdwr pawb, clyw ein gweddi
a thyrd â heddwch.
Gwna ni'n gyflawn.

Amen.





Pererindod yr Ofalaeth i Soar y Mynydd



Dydd Sul, 19 Mehefin 2022

Bws yn gadael sgwâr Bancyfelin am 9.45

Cana am 9.50

Heol Awst am 10.05

Heol y Prior am 10.15

Paned yn Llanymddyfri

Seibiant yn Llyn Brianne


**Oedfa yn Soar y Mynydd am 2
dan ofal Beti-Wyn**

**Cinio Dydd Sul yn y New Cross Inn, Dryslwyn am 5
Pris am y dydd: £20 yn cynnwys swper**

Enwau i Beti-Wyn neu ar y daflen yn y cyntedd.

**Gofynnir am flaendal o £5 oddi wrth bawb
os gwelwch yn dda**

DALIWCH ATI I GASGLU STAMPIAU A CHETRYS



DATHLU 20



20



Ifanc@Priordy

Helo bawb. Sut mae'r blodau haul yn dod
yn eu blaen? Cofiwch anfon lluniau atom!



TAITH GERDDED I BAWB

Dydd Sadwrn, 16 Gorffennaf

LLANSTEFFAN

Cwrdd am 11yb yn y maes parcio cyntaf.

Dewch â phecyn bwyd a digon o ddiod
gyda chi ar y daith.

Welwn ni chi yno!

Calendr Mehefin/Gorffennaf

Mehefin 5 - Ysgol Sul

Mehefin 12 - Cwrdd Plant a phobl ifanc

Mehefin 19 - Dim Ysgol Sul

Mehefin 26 - Ysgol Sul

Gorffennaf 3 - Ysgol Sul

Gorffennaf 10 - Y Sul Sbesial yn yr Egin

Gorffennaf 16 (Sadwrn) Taith Gerdded

Chwilotair Llythyren B

A	B	A	I	B	B	A	B	A	N	B	A	A	L
B	A	O	D	N	O	L	I	B	A	B	B	I	B
E	L	T	A	I	T	A	B	E	D	R	E	A	B
T	H	B	B	B	A	E	N	R	S	B	B	T	R
H	B	S	A	E	B	S	E	E	E	E	B	N	E
L	R	U	B	T	S	I	H	A	H	T	A	E	N
E	E	E	E	H	S	I	N	T	T	H	R	S	H
H	N	M	H	A	M	A	L	E	E	A	N	A	I
E	I	I	S	N	H	A	R	D	B	B	W	B	N
M	N	T	H	I	B	A	B	E	L	A	Y	B	O
I	E	R	T	A	B	R	E	E	R	R	R	A	E
H	B	A	A	B	E	I	B	L	E	A	R	R	D
A	U	B	B	R	L	E	H	T	E	B	B	A	D
S	U	E	M	A	L	O	H	T	R	A	B	B	B

BATHSHEBA
BEIBL
BETHSAIDA
BARABBAS
BETHABARA
BARTHOLAMEUS
BARTIMEUS
BETHANIA
BAAL
BRENIN
BARNWYR
BRENHINOEDD
BETHESDA
BETHLEHEM
BABAN
BEREA
BETHEL
BABILON
ABEL

Fedrwch chi osod y geiriau hyn mewn trefn
yn yr adnod?

bynag, lesu, sychedu, llwgu, credu, bywyd


Yna dyma 'n datgan, "Fi ydy'r bara sy'n rhoi Fydd pwy ddaw
ata i ddim yn, a fydd pwy bynnag sy'n ynof fi ddim yn

Hwyl tan tro nesaf, Beti-Wyn



FFILMIO AR GYFER UNDEB 150

Gweler y Rhwydwaith



CYFLWYNO BEIBLAU YN YSGOL Y DDERWEN



Gweler y Rhwydwaith



Unigrwydd

Hen awr o ddymuniadau lond ei chôl,
brawddegau teyrnged wedi'u lapio'n dynn
mewn plygiad werthfawrogol, ac ar ôl
nid oes ond gwacter rhwng y geiriau hyn.
Dros donnau'r dymuniadau clywaf gân
i minnau weld y byd 'r ôl gyrfa faith,
a hwylio i ryw fan na bûm o'r blân
a'm pensiwn imi'n gwmni ar fy nhaith
heb droi yn ôl na phoeni am y sawl
sy'n eistedd yn gartrefol yn fy lle;
'Mwynha dy hun' medd pawb, 'gen ti mae'r hawl
i orwedd o dan haul dy seithfed ne'.
Fe hoffwn, er yr heulwen, weled drwy
y niwl sy'n dweud 'nid oes dy angen mwy'.

Beti-Wyn James

***Y gerdd fuddugol yng nghystadleuaeth Soned neu
Delyneg ar y testun Unigedd yn Eisteddfod Teulu
James Pantyfedwen Pontrhydfendigaid 2022***

Tudalen Blaen

Rheswm Iwan Griffiths dros ddewis dyfyniad o waith Ken Griffiths:


Aninnau yn carlamu tuag at yr Haf, pwy ddewis dyfyniad sy'n ein llusgo ni nôl i dymor y Pasg? Dw i'n clywed ebychiadau'r darllenwyr o gludwch fy atig yn Llangynnwr wrth i mi bendroni dros y geiriau hyn.



Byddai modd dadlau, mae'n siŵr, dros gynnwys y gampwaith syml ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Dw i'n cynnig cyfiawnhad pellach dros y dewis wrth ddatgelu gyda chryn falchder, mai fy wncwl Ken sy'n gyfrifol am y ddwy linell.

Dyma gwpled sy'n dweud ei ddweud mor effeithiol, prin y mae'n rhaid i mi esbonio'r ystyr. Mae'n eich bwrw chi ar eich talcen. Y fath o bennill sy'n eich gadael chi i feddwl; "pam na feddylies i am hwnna?"

Heb syndod, derbyniodd **Ken** ddeg marc gan y meuryn, Gerallt Lloyd Owen ar gyfres *Talwrn Y Beirdd*. Prin yr oedd Gerallt yn cyflwyno



marciau llawn yng nghystadleuaeth y cwpled, ond roedd hwn, meddai, yn haeddu deg a mwy.

Os ystyriwn ni'r geiriau mewn rhagor o fanylder, ry' ni'n cael darlun yma o'r lesu ar ôl y Croeshoeliad. Dyma Un sy'n estyn llaw i roi cymorth i ni ar yr adegau hynny pan fo wir ei angen. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae nifer fawr ohonom ar raddfa wahanol wedi gweld angen am y llaw honno i'n cynnal.

Os af i â chi nôl at y bardd, mae Ken yn byw ac yn ffermio yn un o'r llefydd hyfrytaf ar wyneb y ddaear. Yn edrych dros Eglwys Y Grog, Mwnt, mae fferm y Graig yn golygu llawer i fi'n bersonol.

Wrth i mi ffilmio ger yr Eglwys



yn ddiweddar gan adlewyrchu ar y difrod a wnaed i'r adeilad dros gyfnod y Nadolig, fe glywais i ddyfyniad gan un sy'n byw yn lleol;

“Yma, mae'r llinell rhwng nef a daear yn denau iawn iawn.”

I'r rheini ohonoch sydd wedi ymweld â'r ardal, byddwch chi'n deall hynny'n iawn; a'r awen yn galw heibio yn hawdd mae'n ymddangos i un sydd wedi trin y tir yno ers hanner canrif a mwy.

Cyn cloi, hoffwn rannu un arall o weithiau pwerus o syml wncwl Ken:

Dyletswydd

**Fe aeth, er cloffni henaint
A'i chapel yn pellhau,
I gadw'r drws ar agor
Pan oedd yn bygwth cau.**

**Onid un o'i phlant mewn cerbyd
Fydd yn ei chludo nawr,
A'i gadel wrth y gatiau
Gan ddod yn ôl mewn awr.**

Eto, y symlrwydd sy'n eich taro chi.

Ydy hyn yn adlewyrchiad teg o sefyllfa'n cynulleidfaoedd ni heddi'?
Falle wir.

Onid ga i ddefnyddio'r cyfle i rannu neges o ddiolchgarwch personol i bawb sy'n cadw'r gatiau ar agor ym mhob un o gapeli ein cenedl. Fel un sydd wedi cludo fy mhlant trwy gatiau'r Priordy dros y misoedd diwethaf, a chael pleser a chysur wrth wneud, dw i'n hynod ddiolchgar nad y' nhw yn agos at gau.



Ac os mai Un llaw oedd testun y pwt yma, mae 'na le gen i i ddiolch i sawl llaw o groeso sydd wedi eu hestyn tuag ataf ers i mi ymgartrefu yma yng Nghaerfyrddin.

Llun: Ken Griffiths yn ei gynefin gyda'i gyfaill George



**Katie Davies, enillydd
Tlws Y Priorddy yn Noson Wobrwyo
Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin**



**Gwenan
Pencampwraig B7 ym Mabolgampau Ysgol Gyfun Gymraeg Bro
Myrddin**

**Mali'n hau hadau'r
Blodau Haul**



**Harri Howells yn gwisgo'r cap a enillodd am chwarae pêl-droed
dros Ysgolion Cymru dan 16. Ar sgôr yn y gêm fawr oddi cartref:
Lloegr 2 Cymru 4!!**

YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?

Cyswllt

PHILIP JONES

Trysorydd

☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk



YN DYMUNO CYFAMODI?

DENNIS JONES

YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI

Croeso i chi gysylltu ag e!

CWIS YR EMYNAU ATEBION		
1	Mae Duw yn llong pob lle	76
2	Mawr ddyled arnom sydd	79
3	Molwch Arglwydd nef y nefoedd	82
4	Moliannwn di, O Arglwydd	88
5	Molwn di, O Dduw'r canrifoedd	98
6	Molwn enw'r Arglwydd	126
7	Mae'n Duw ni mor fawr, mor gryf ac mor nerthol	151
8	Mae'r Arglwydd yn cofio y dryw yn y drain	157
9	Mae gennyf ddigon yn y nef	168
10	Mae dy air yn abl i'm harwain	185

BORE COFFI
LLYFRAU LLAFAR CYMRU
22 Mehefin 2022 - 10-12
Gwesty'r Llwyn Iorwg
Tocynnau: £2





Ras y Maer

Huw Jones enillydd tlws y
wisg ffansi orau yn Ras y
Maer 2022

Paned a Sgwrs yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg



**RHAGLEN Y CYFARFODYDD BLYNYDDOL
CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN 2022
7-10 Gorffennaf 2022**

***Y cyfarfodydd i'w cynnal yng Nghanolfan Halliwell ar
gampws Coleg Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
oni nodir yn wahanol***

Dydd Iau, 7 Gorffennaf 2022	
1.30	Cynhadledd 1 Cadeirydd: Y Llywydd – Y Parchedig Beti-Wyn James Defosiwn: Y Parchedig Gethin Rhys
2.00	Ymddiheuriadau am absenoldeb Adroddiad Undeb Rhithiol 2021 (y Llyfr Gwyrdd) Croesawu / ethol Trysorydd newydd yr Undeb Croesawu Cyfarfodydd Blynyddol 2023 i Gyfundeb Dwyrain Dinbych a Fflint Eglwysi Dementia Gyfeillgar Economi Bywyd a Newid Hinsawdd
3.00	Te a chacen a chroeso
4.00-5.00	Cyfarfod Heddwch
5.30	Swper
7.30	Cyflwyniad gan aelodau a chyfeillion eglwysi Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin

Dydd Gwener 8 Gorffennaf 2022	
9.30	Cynhadledd 2 Cadeirydd: Y Llywydd – Y Parchedig Beti-Wyn James Defosiwn: Y Parchedig Gethin Rhys
10.00	Adroddiad y Trysorydd Adroddiad ar Fuddsoddion yr Undeb Adroddiad y Pwyllgor Gweinyddol Etholiadau • 2 i wasanaethu ar y Cyngor am 3 blynedd • Hyd at 3 i'r Pwyllgor Gweinyddol am 3 blynedd • Cyfreithiwr ac archwiliwr am y flwyddyn
11.00	Te / Coffi

11.30	Y Drysorfa Gynorthwyol Adroddiad y Cyngor a'i Adrannau Y Tyst
1.00	Cinio
2.00	Cynhadledd 3 Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol Penderfyniadau Derbyn gweddill cofnodion y <i>Llyfr Glas</i> Penderfyniadau UFA
3.30	Te / Coffi
4.00-5.00	Yr olaf o win yr haf: Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 1972-2022 Darlith gan y Parchedig Ddr Geraint Tudur
5.30	Swper
7.30	Oedfa o Fawl Capel Heol Awst, Caerfyrddin Llywydd: Y Parchedig Beti-Wyn James Pregeth: Y Parchedig Iwan Llewelyn Jones

Dydd Sadwrn, 9 Gorffennaf 2022	
9.30	Defosiwn: Y Parchedig Tom Defis Cadeirydd y Pwyllgor Lleol
9.40	Dathliad yr Undeb dan ofal Alun Lenny
11.00	Te / Coffi
11.30	Oedfa'r Llywydd Llywyddir gan Mr Dafydd Roberts Cadeirydd y Cyngor Coffáu y rhai a fu farw Gweddi: Y Parchedig Rhodri Glyn Thomas Dymuno'n dda i swyddogion a ymddeolodd Croesawu gweinidogion newydd Cydnabod gwasanaeth Trysorydd yr Undeb Anerchiad y Llywydd Y Parchedig Beti-Wyn James
1.00	Cinio ac ymadael



Dangosir cyflwyniadau Cwpan Denman
yn ystod y cynadleddau



Gwyl y Sul Sbesial



Siaradwr Gwadd:

Huw Edwards

Cadeirydd:

Parchg Tom Evans

gyda Band y Priorddy, aelodau
ysgolion Sul Peniel a Siloam.

Gweithgarwch i'r ieuenctid



Bydd cyfle i brynu te, coffi, cacennau ac ati yn y caffi wedyn

**Croeso cynnes i bawb
i'r achlysur arbennig hwn**


Trefnir gan Annibynwyr Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin

COFIO JOHN RICHARD JONES RAMOTH 1765-1822

ENWAD newydd a sefydlwyd yng Nghymru tua diwedd y ddeunawfed ganrif oedd enwad y Bedyddwyr Albanaidd a dyma ddwyn i gof rai sylwadau am y sylfaenydd a fu farw ddeucan mlynedd yn ôl i'r mis hwn

Ganed John Richard Jones, sy'n fwy adnabyddus fel J R Jones Ramoth, ym Mryn Melyn, Llanuwchllyn, Meirionnydd ar 13 Hydref 1765. Roedd yntau a'i deulu'n perthyn i enwad yr Annibynwyr ac yn addoli yn yr Hen Gapel, Llanuwchllyn lle dechreuodd bregethu. Trodd at y Bedyddwyr, fodd bynnag a chafodd ei fedyddio yn Nhrawsfynydd cyn ei sefydlu'n weinidog eglwys Ramoth, Llanfrothen - canolfan Bedyddwyr Meirionnydd - a'i changhennau ym 1789.

Daeth dan ddylanwad yr Albanwyr John Glas, Robert Sandeman ac Archibald McLean a'u syniadau am gred a threfn eglwysig. Bu'n



gohebu'n helaeth â' **McLean**, yr un a roddodd wisg Fedyddiedig i'r syniadau hyn. Y canlyniad oedd i J R Jones adael Cyfundeb y Bedyddwyr ar ddiwedd 1798 a ffurfio enwad y Bedyddwyr Albanaidd. Ei nod oedd *'adfer ordinhadau ac arferion yr Eglwys Fore, pwysleisio ochr ddeallol ffydd, newid dull pregethu y pregethwyr poblogaidd gyda'u hwyl Fethodistaidd a'u damhegu parhaus ar yr Ysgrythurau, a 'neidio' gorfoleddus y*

cynulleidfaoedd.

Bu **Christmas Evans** yn ei gynorthwyo yn fawr i ledaenu ei syniadau rhwng 1795 a 1798, ond ymbellhaodd oddi wrtho pan ymneilltuodd oddi wrth gorff y Bedyddwyr yng Nghymru, uno â Bedyddwyr yr Alban a sefydlu enwad y Bedyddwyr Albanaidd. Dilynwyd eglwys Ramoth i'r ymneilltad gan



eglwysi Harlech, Bryndeunydd a Thrawsfynydd ym Meirion, Cricieth a Llanllyfni yn Arfon a Rhosllannerchrugog yn Sir Ddinbych. Rhwygwyd yr eglwysi yn Nolgellau, Glyn Ceiriog a Rhuthun gyda rhai aelodau o blaid y drefn newydd ac eraill ddim.

Bu J R Jones yn gweinidogaethu i'r enwad newydd am weddill ei oes. Bu farw 27 Mehefin 1822.

Cofiannydd iddo oedd cyn aelod seneddol Wrecsam, James Idwal Jones (1900-82) - a ddaeth yn weinidog didâl gyda'r Bedyddwyr Albanaidd yng Nghymru ym 1924. Roedd yntau'n frawd i Thomas William Jones (Arglwydd Maelor -1898-1984), cyn aelod seneddol Meirionnydd a phregethwr lleig.

Yn ŵr dawnus a galluog, roedd J R Jones yn un o bregethwyr mwyaf dylanwadol ei gyfnod. Meddai'r Bywgraffiadur Cymreig amdano: *Gŵr amryddawn ydoedd, o alluoedd disglair, â diddordeb mewn pob math o wybodaeth. Gwyddai rywfaint o Roeg, Lladin, a Hebraeg; yr oedd yn dipyn o beiriannydd ac yr oedd iddo ddiddordeb mewn mathemateg; yn ei ffordd ei hun, gydol ei oes, arferai grefft meddyg gwlad. Tystir i'w lais soniarus a'i ddawn canu, a medrai hefyd beroriaeth a gwyddor canu. Ymhoffai yng nghrefft barddoniaeth, ac yr oedd yn gyfaill ac yn athro diwinyddol i ' Robert ap Gwilym Ddu ' a ' Dewi Wyn.'*

Cyhoeddodd sawl casgliad o emynau a gwelir un emyn o'i eiddo yn *Caneuon Ffydd*, sef Emyn 216 - *Duw mawr y rhyfeddodau maith*, cyfieithiad o emyn Dr Samuel Davies (1723 -1761).

Mae pob pennill yn yr emyn hwn yn diweddu gyda chwestiwn rhethregol. Wrth drafod yr emyn yn **Emynau'r Ffydd** (Cyhoeddiadau'r Gair 2014), dywed Huw Powell Davies '*nad oes neb yn gallu cynnig i ni dduw tebyg i'n Duw ninnau, sydd wedi cynnig y fath faddeuant nad yw'n dibynnu ar weithredoedd pobl nac ar eu gallu ond maddeuant sydd o ras yn unig.*' *Does dim modd cymharu ein Duw ni â duwiau eraill, Mae yng ngeiriau'r Salm ydd 'goruwch yr holl dduwiau'.* (Salm 94:6).

Daw arwyddocâd y pwyslais, yng nghwpled clo y tri phennill, ar y gair 'rhad' yn fwy clir wrth ystyried hanes bywyd a gwaith J R Jones. Roedd yn credu fod nifer o bregethwyr poblogaidd y cyfnod yn

pregethu ‘Rith ras’ yn hytrach na ‘Rhad ras’, sef bod rhaid wrth brofiad mewdol o iachawdwriaeth – ac o bosibl, weithredoedd da – cyn y gallai gras fod yn weithredol. I J R Jones, fodd bynnag, roedd iachawdwriaeth yn dod yn llwyr ac yn gyfan gwbl oddi wrth Dduw, yn annibynnol ar deimlad yr unigolyn ac felly yn hollol wrthrychol.

A dyma gyfle i chi fwynhau emyn mawr J R Jones:

**Duw mawr y rhyfeddodau maith,
rhyfeddol yw pob rhan o’th waith,
ond dwyfol ras, mwy rhyfedd yw
na’th holl weithredoedd o bob rhyw:
pa dduw sy’n maddau fel tydi
yn rhad ein holl bechodau ni?**

**O maddau’r holl gamweddau mawr
ac arbed euog lwch y llawr;
tydi yn unig fedd yr hawl
ac ni chaiff arall ran o’r mawl:
pa dduw sy’n maddau fel tydi
yn rhad ein holl bechodau ni?**




**O boed i’th ras anfeidrol, gwiw
a gwrth dy gariad mawr, O Dduw,
orlenwi’r ddaear faith â’th glod
hyd nefoedd, tra bo’r byd yn bod:
pa dduw sy’n maddau fel tydi
yn rhad ein holl bechodau ni?**

***Diolch yn fawr iawn i’r Parchedig Ddr Desmond Davies am ei
gymorth gyda’r erthygl hon.***

AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)

AGOR Y LLYFR YN YSGOL Y DDERWEN



**John Meredith yn dala lan â
newyddion
Y Priordy rhwng Malta a Sisili!**



**Llongyfarchiadau mawr i Peter
Hughes Griffiths ac Emlyn
Schiavone ar gael eu haillethol i'n
cynrychioli ar Gyngor Sir Gâr.
Pob dymuniad da iddynt.**

BYDD YN WROL!!

Emyn poblogaidd iawn yw **Bydd yn wrol, paid â llithro** (Caneuon Ffydd 735).


Ganed Norman MacLeod, cyfansoddwr y gwreiddiol, 3 Mehefin 1812 yn Campbeltown, Swydd Argyle yn yr Alban. Roedd yn ffigur dylanwadol yn Eglwys yr Alban a bu'n weinidog mewn sawl man. Dangosodd flaengaredd ym myd yr emyn. Bu farw yn Glasgow 16 Mehefin 1872, sef cant hanner o flynyddoedd yn ôl i'r mis hwn, a'i gladdu yn Campsie.



Troswyd yr emyn i'r Gymraeg gan **Ben Davies**, brodor o Gwyllynfell sy'n adnabyddus fel gweinidog Pant-teg, Ystalyfera lle bu am 36 o flynyddoedd. Roedd yn fardd coronog a chadeiriol. Fe'i adnabyddir fel 'Ben Davies Pant-teg'. Bu farw yn Llundain ym 1937. Roedd Ben Davies a **Watcyn Wyn** (1844-1905), pregethwr, emynydd ac ysgolfeistr enwog

iawn yn ei ddydd, yn aelodau o'r un teulu, y ddau yn gefndryd ac wedi cyfrannu'n helaeth i emynyddiaeth Cymru.

Mae'r emyn yn seiliedig ar Josua 1.6: **Bydd yn gryf a dewr. Ti'n mynd i arwain y bobl yma i goncro'r wlad wnes i addo ei rhoi i'w hynafiaid.** (beibl.net).



Ceir datganiad hyfryd o'r emyn gan y gantores **Ina Williams** ar YouTube. Mae fidio diddorol hefyd ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n dangos yr emyn yn

cael ei ganu yng Nghyfarfodydd
Dathlu 275 mlynedd o dystiolaeth
Bedyddwyr Aberduar
Llanybydder yn 2017.



Un o'r recordiau a ddewisodd y
diweddar Meurig Voyle (sef tad
ein Rhian Jones ni) ar gyfer **Beti
a'i Phobl** rai blynyddoedd yn ôl
oedd yr emyn hwn. Roedd Meurig
yn un o aelodau gwreiddiol ac amlwg Pwyllgor Amddiffyn
Llangyndeyrn, pan lwyddodd pobl yr ardal yn y 1960au i atal cynlluniau
Corfforaeth Ddŵr Abertawe i foddï'r ardal er mwyn codi argau.
Dewrder ffermwyr y fro'r pryd hwnnw a'i symbylodd i ddewis yr emyn
ar gyfer y rhaglen.

Mae **Bydd yn wrol, paid â llithro** yn emyn a genir yn gyson mewn
oedfaon a'i neges mor berthnasol heddiw ag erioed yng nghanol
tywyllwch a heriau'n dyddiau ni. '**Cred yn Nuw a gwna dy waith**' yw'r
gofyn, gan wybod, beth bynnag yw'r anawsterau, y bydd Duw trwy
lesu, yn gefn ac yn ysbrydoliaeth i ni - yn seren i'n goleuo.

**Bydd yn wrol, paid â llithro,
er mor dywyll yw y daith
y mae seren i'th oleuo:
cred yn Nuw a gwna dy waith.
Er i'r llwybyr dy ddiffygio,
er i'r anial fod yn faith,
bydd yn wrol, blin neu beidio:
cred yn Nuw a gwna dy waith.**

**Paid ag ofni'r anawsterau,
paid ag ofni'r brwydrau chwaith;
paid ag ofni'r canlyniadau:
cred yn Nuw a gwna dy waith.
Cei dy farnu, cei dy garu,
cei dy wawdio lawer gwaith;
na ofala ddim am hynny:
cred yn Nuw a gwna dy waith.**





**CANOLFAN GALW I MEWN
BYDDIN YR IACHAWDWRIAETH
HEOL AWST**




**Diolch yn fawr iawn i chi am eich rhodd
hynod o garedig at waith Canolfan Galw i Mewn Byddin yr
Iachawdwriaeth.**

**Caiff y nwyddau hylendid personol eu dosbarthu ymhlith y rhai
sy'n mynychu'r Ganolfan ac eraill sy'n profi anawsterau ac yn
gaeth i'w haelwydydd y dyddiau hyn.**

**Byddwch mor garedig â diolch i'ch cynulleidfa, os gwelwch yn
dda. Byddwch oll yn ein gweddïau wrth i ni symud ymlaen.**

**Jackie Hamilton
Rheolwr Rhaglen y Gymuned
Byddin yr Iachawdwriaeth**

***Llythyr a dderbyniodd ein Gweinidog yn ddiweddar yn dilyn ein
hapêl a lansiwyd ym mis Chwefror***



Puned Gainc y Mabinogi

**Peredur Glyn
Y Lolfa Ebrill 2022 - £8.99**

***Cyfes o storïau cydgyssylltiol
ond cwbl annibynnol ar ei gilydd
sy'n ymwneud â'n chwedloniaeth
gynnar***

**Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?
Trowch at: cyfundeb.com**



DYLETSWYDDAU GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS



Mehefin		Gorffennaf	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Gareth Gravell		Alison Parsons	



BLODAU



Mehefin	5	Margaret Lewis	Gorffennaf	3	
	12			10	Sul y Cyfundeb
	19	Pererindod		17	Luned V Thomas
	26	Eira Phillips		24	
				31	Eirlys Jones



PARATO'R BWRDD CYMUN



Mehefin	5	Bore	Betsan James a Rachel Davies
Gorffennaf	3	Bore	Alwen Owens a Fiona Elias



DARLLENWYR



Mehefin	5	Delyth Gwawr Davies	Gorffennaf	3	Heledd Mai Jones
	12	Y Plant		10	Sul y Cyfundeb
	19	Pererindod		17	Peter H Griffiths
	26	Alison Parsons		24	June Thomas
				31	Gareth Gravell



CYHOEDDWYR



Mehefin	Catrin H Jones	Gorffennaf	Elis Jones
---------	----------------	------------	------------



DYMUUNWN yn dda i bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phob un sy'n gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Ein cofion annwyl atoch i gyd.

Bu Jac, Tomos a Siwan yn cymryd rhan mewn ffilm am Gwilym Hiraethog, Llywydd cyntaf Undeb yr Annibynwyr. Bydd y ffilm yn rhan o ddathliad Undeb 150 ac edrychwn ymlaen at ei gweld. Gweler y lluniau yn y rhifyn hwn.

Yn **Cofio** ar **Radio Cymru** bu John Hardy, wrth ein tywys drwy'r archif, yn trafod Papurau Bro, a chlywyd Iwan Evans yn sôn am ddechreuadau **Cwlwm**, Papur Bro Caerfyrddin.



Wn i ddim faint ohonoch sy'n dioddef o glefyd y gwair ond y cyflwr hwnnw oedd testun sgwrs y Dr Llinos Roberts ar **Bore Cothi** ar **Radio Cymru** un bore.

Bu Menna Elfyn yn trafod ei chyfrol ddiweddaraf o farddoniaeth, sef **Tosturi** ar **Raglen Dei Tomos** ar **Radio Cymru**.

Tybed a glywsoch chi Gôr Seingar ar **Bore Cothi** ar **Radio Cymru** yn ddiweddar? Mae Tatyana, merch o Wcráin, yn gymydog i'r arweinydd Nicki Roderick ac ymunodd ei thad a'i mam a'i chwaer â hi a'r teulu ar eu haelwyd yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar oherwydd yr anghydfod yn eu mamwlad. Canodd y Côr hwiangerdd o Wcráin ar y rhaglen, yn arbennig i gysuro'r teulu yng nghanol eu gofid a chawsant help Tatyana yn ystod eu hymarferion yn y Priordy i ddysgu ynganu'r geiriau Wcreineg yn briodol. Hanesyn hyfryd a chalonogol!

Llongyfarchiadau i Marged Jones ar ddod yn drydydd ym Mhencampwriaeth Gymnasteg Cymru ym mis Ebrill. Bydd hi'n cynrychioli Cymru ym Mhencampwriaeth Prydain (NDP) yn Stoke on Trent. Portiugal sydd nesaf i hyfforddi gyda charfan Gorllewin Cymru.

Cafodd Harri Howells ei ddewis i chwarae dros Ysgolion Cymru dan 16 oed. Da iawn yn wir – mae llun ohono gyda'i gap yn y Papur hwn.

Yn ôl ei harfer, bu'n Gweinidog ar ymweliad arbennig ag Ysgol y Dderwen i gyflwyno copi o'r Beibl yr un i ddisgyblion Blynyddoedd 5 a 6. Noddwyd y Beiblau gan Gapeli ac Eglwysi Cymraeg y dref. Gweler lun yn y Papur hwn.

Ein dymuniadau gorau i Siwan Gwyn a Guto Ifan a fydd yn priodi yn Y Priordy fore Sadwrn, 18 Mehefin 2022 am 11.30 o'r gloch

I GLOI pen-blwydd hapus i Catrin Heledd Jones, un o'n diaconiaid, a fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ar 28 Mehefin 2022. Pob dymuniad da oddi wrth bawb yn y Priordy.



Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Gorffennaf / Awst i'n Gweinidog neu Alun Charles

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Rebecca Hayes, Huw Michael, Iwan Griffiths, Huw Jones a Mair Meredith am y lluniau'r mis hwn.



CYMDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â Meinir ac Elis Jones a Steffan a Gareth ar golli mam Meinir a mam-gu'r meibion, sef Nancy Thomas, Llandeilo ar 21 Mai 2022. Meddyliwn am y teulu cyfan yn eu hiraeth a'u galar.

Mynegwn ein cydymdeimlad â Meinir a Peter Hughes Griffiths ar golli chwaer Meinir, sef Morfudd Phillips, Bangor, ar 25 Mai 2022. Cofiwn am gyfraniad mawr Morfudd yn y byd cerdd dant ac fel arweinydd Parti'r Ffynnon a Rhiannedd Môn. Meddyliwn am y merched, Mari a Lowri, ei chwaer Bronwen, a'r teulu cyfan yn eu colled.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd â Nerys a Brian John (BJ) Williams, Nansi, Anni a Loti (aelodau yn ein Hysgol Sul) ar golli mam Nerys a mam-gu'r plant, sef Iris Williams, Caerfyrddin ar 26 Mai 2022. Cofiwn am ei gŵr, Eirwyn, a'r teulu cyfan yn eu colled a'u hiraeth.



Y SULLADUR



Mehefin	5	Bore	Ein Gweinidog	C
	12	Bore	Cwrdd Plant gyda'n Gweinidog	
Sul y Tadau	19	Bore P'nawn	Pererindod yr Ofalaeth i Soar-y-Mynydd gyda'n Gweinidog	
	26	Bore	Y Parchedig Denzil John	

Gorffennaf	3	Bore P'nawn	Ein Gweinidog Cwrdd Eglwys wedi'r Oedfa Gŵyl Hirddydd Haf – Parc y Dref am 4.30	C
	10	Bore	Sul y Cyfundeb - Manylion y tu mewn	
	17	Bore	Ein Gweinidog	
	24	Bore	Ein Gweinidog	
	31	Bore	Gwasanaeth yng ngofal yr Aelodau	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC								
✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant OD – Oedfa Deulu SS – Sul Sbsial								
Mehefin				Gorffennaf				
5	12	19	26	3	10	17	24	31
✓	CP	-	✓	✓	SS	-	-	-



**CWRDD EGLWYS
BORE SUL 3 GORFFENNAF 2022
WEDI'R OEDFA**

**Oedfa Fyw dros Zoom ar gyfer y sawl sy'n hunanynysu
Oedfa Ddigidol hefyd yn hwyrach ymlaen**



DALIER SYLW
**Rhown wybod am unrhyw newidiadau i'r
Suliadur mewn da bryd**

